

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

**Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan, Practis
Deintyddol North View**

28 Ionawr 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copiâu o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

| | | |
|----|---|----|
| 1. | Cyflwyniad..... | 2 |
| 2. | Methodoleg | 2 |
| 3. | Cyd-destun..... | 4 |
| 4. | Crynodeb | 5 |
| 5. | Canfyddiadau | 6 |
| | Profiad y Claf..... | 6 |
| | Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru | 9 |
| | Rheolaeth ac Arweinyddiaeth..... | 13 |
| | Ansawdd yr Amgylchedd..... | 16 |
| 6. | Y Camau Nesaf..... | 18 |
| | Atodiad A..... | 19 |

1. Cyflwyniad

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol North View yn 10 North View Terrace, Caerffili, yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, ar 28 Ionawr 2015.

Ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol gennym yn ystod yr arolygiad:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o Bractisau Deintyddol Cyffredinol yn ceisio canfod pa mor dda mae practisau yn bodloni'r safonau yn Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru.¹

Gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion

¹ Daeth Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru i rym ar 1 Ebrill 2010. Mae'r fframwaith safonau yn nodi gofynion yr hyn a ddisgwylir gan bob gwasanaeth iechyd ym mhob lleoliad yng Nghymru.

<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1064/Gwneud%20yn%20Dda%2C%20Gwneud%20yn%20Well%20%E2%80%93%20Safonau%20ar%20gyfer%20Gwasanaethau%20Iechyd%20Cymru%20%28Ebrill%202010%29.pdf>

- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wnaed, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r defnydd o safonau yn y practis yr ymwelwyd ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

3. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol North View yn darparu gwasanaethau deintyddol GIG a phreifat yn ardal Caerffili. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaeth deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Mae tîm y staff yn y practis yn cynnwys pedwar deintydd (gan gynnwys y prif ddeintydd), tri hylenydd (roedd un hylenydd nad oedd yn gweithio yn y practis ar hyn o bryd), saith o nyrsys, a rheolwr practis.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau cyffredinol deintyddol a hylendid deintyddol. Mae Practis Deintyddol North View yn bractis hyfforddi wedi'i hen sefydlu ar gyfer deintyddion gyda Deoniaeth Cymru (Ysgol Addysg Feddygol a Deintyddol i Raddedigion). Adeg yr arolygiad hwn, roedd un o'r deintyddion yn y practis yn dilyn blwyddyn sylfaen o hyfforddiant deintyddol dan arweiniad y prif ddeintydd.

Mae AGIC yn deall bod Practis Deintyddol North View yn bractis cymysg yn cynnig gwasanaethau deintyddol preifat a GIG. Yn hyn o beth, bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd hefyd wedi ei gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn destun Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau (diwygiad) 2011.

4. Crynodeb

Archwiliodd AGIC sut mae Practis Deintyddol North View yn bodloni safonau gofal yn y ddogfen 'Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru'.

Fe'n hysbyswyd gan gleifion eu bod yn fodlon gyda'r gwasanaeth y maent yn ei dderbyn gan y practis deintyddol a'u bod yn cael gwybodaeth ddigonol am eu triniaeth. Roedd adborth o holiaduron cleifion AGIC yn gadarnhaol iawn. Argymhellwyd bod y practis yn datblygu dull o gael barn ac adborth cleifion er mwyn asesu'n rheolaidd ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.

Yn gyffredinol, cawsom fod gofal a thriniaeth yn cael eu cynllunio a'u cyflenwi yn ddiogel i gleifion. Roedd prosesau addas yn bodoli i amddiffyn cleifion a staff rhag croes-heintio. Yn gyffredinol, ein teimlad oedd bod trefniadau cadw cofnodion cleifion yn y practis yn briodol, ond adnabuwyd rhai gwelliannau y gellid eu gwneud.

Gwelsom fod y practis yn cael ei redeg yn ddiogel, gyda systemau'n bodoli i sicrhau diogelwch cleifion. Roeddem yn teimlo bod rheolaeth ac arweinyddiaeth gref yn y practis. Dywedodd y deintydd sylfaen dan hyfforddiant wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael goruchwyliaeth briodol.

Cawsom fod yr adeilad wedi ei gynnal a'i gadw'n briodol ac yn cynnig amgylchedd diogel i gleifion dderbyn triniaeth ynddo.

5. Canfyddiadau

Profiad y Claf

Fe'n hysbyswyd gan gleifion eu bod yn fodlon gyda'r gwasanaeth y maent yn ei dderbyn yn y practis deintyddol a'u bod yn cael gwybodaeth ddigonol am eu triniaeth. Roedd adborth o holiaduron cleifion AGIC yn gadarnhaol iawn. Argymhellwyd bod y practis yn datblygu dull o gael barn ac adborth cleifion er mwyn asesu'n rheolaidd ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.

Cwblhawyd deg o holiaduron cleifion cyn yr arolygiad. Hefyd, bu i ni siarad â phedwar claf ar ddiwrnod yr arolygiad. Roedd adborth y cleifion yn gadarnhaol iawn. Dywedodd yr holl gleifion eu bod yn fodlon gyda'r gofal a'r driniaeth a gawsant yn y practis a'u bod yn teimlo eu bod yn cael croeso gan y staff. Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion wrthym nad oedd unrhyw oedi cyn cael eu gweld gan y deintydd.

Roedd sampl o'r sylwadau yn cynnwys y canlynol:

"Gwych."

"Bodlon iawn gyda'r driniaeth."

"Erioed wedi cael problem. Mae'r staff i gyd yn gyfeillgar iawn ac yn effeithlon."

"Wedi symud o'r ardal yn ddiweddar – mae'r driniaeth yn golygu fod fy ngŵr a minnau yn fwy na pharod gwneud y daith ddwy awr i barhau gyda'n gofal deintyddol."

"Perffaith hapus."

"Mae nhw gystal â'r aur."

"Dim byd yn ormod o drafferth."

"Bob amser yn bleser mynychu ar gyfer angen mor annifyr."

Dywedodd mwyafrif y cleifion eu bod yn gwybod sut i ddefnyddio'r gwasanaethau deintyddol y tu allan i oriau arferol. Gwelsom arwydd yn ffenestr y practis gyda'r rhif cysylltu mewn argyfwng, a chadarnhawyd bod rhif cyswllt yn cael ei roddi ar neges peiriant ateb y practis.

Dywedodd yr holl gleifion eu bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Dywedodd y staff wrthym bod opsiynau triniaeth yn cael eu trafod gyda'r cleifion, a gwelsom dystiolaeth o hyn wedi ei chofnodi yn nodiadau'r cleifion. Serch hynny, rydym wedi gwneud argymhellion ynglŷn â chofnodion cleifion a darparu gwybodaeth ysgrifenedig ar driniaeth i gleifion yn yr adran ganlynol – Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru.

Roedd system apwyntiadau hyblyg yn bodoli, a gallai cleifion drefnu apwyntiad ymlaen llaw a phe byddai argyfwng. Roedd apwyntiadau argyfwng ar gael yn y practis bob dydd, fel bod cleifion yn cael eu gweld yn gyflym os oedd angen.

Roedd gwybodaeth ar y practis ar gael i gleifion ar gais. Nid oedd gan y practis wefan, ond mae gwybodaeth sylfaenol ar y practis, gan gynnwys manylion cyswllt ac oriau agor, ar gael drwy wefan Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan. Fodd bynnag, dywedodd y practis wrthym fod gwefan wedi bod yn cael ei datblygu a bod cynlluniau i gwblhau hyn yn y dyfodol.

Roedd arddangosfa dda o wybodaeth hyrwyddo iechyd yn y man aros i gleifion ar y llawr daear, gan gynnwys gwybodaeth ar sut gallai cleifion ofalu am eu dannedd a chynghor am y siwgr mewn bwyd a diod. Roedd hwn yn atyniadol i'w ddarllen ac yn drawiadol. Roedd yr arddangosfa yn defnyddio darluniau a oedd yn golygu ei fod yn fwy hygyrch i amrywiaeth ehangach o gleifion. Trafodwyd yr wybodaeth hyrwyddo iechyd gyda'r practis, ac roeddynt yn barod i gynnwys arddangosfeydd ychwanegol gyda gwybodaeth ar roi'r gorau i ysmegu a chanser y geg. Dywedodd y practis hefyd fod cynlluniau ar y gweill i staff fynychu cwrs rhoi'r gorau i ysmegu.

Argymhelliad

Dylai'r practis ystyried rhoi mwy o wybodaeth hyrwyddo iechyd i gleifion, gan gynnwys rhoi'r gorau i ysmegu ac ymwybyddiaeth o/rhwystro canser y geg.

Fe'n hysbyswyd gan gleifion eu bod yn hapus iawn gyda'r gofal yn y practis. Fodd bynnag, nid oedd gan y practis system i ofyn am farn cleifion yn rheolaidd (h.y. arolwg cleifion neu flwch awgrymiadau) a gweithredu ar hynny, fel ffordd o asesu ansawdd ei wasanaeth. Cytunodd y practis ystyried hyn.

Argymhelliad

Dylai'r practis ddatblygu dull o ofyn am farn ac adborth cleifion er mwyn asesu'n rheolaidd ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.

Pan ofynnwyd ynglŷn â chwyno, dywedodd cleifion wrthym naill ai eu bod yn gwybod sut i gwyno neu nad oedd ganddynt reswm i gwyno ac roeddynt yn

hapus i fynd at staff gydag unrhyw bryderon. Gwelsom fod poster ar gwyno wedi ei arddangos yn amlwg ger y dderbynfa.

Awgrymwyd y gallai'r practis ystyried sut i sicrhau bod gwybodaeth yn fwy hygyrch i amrywiaeth ehangach o gleifion. Er enghraifft, maint ffont/testun mwy a darparu gwybodaeth mewn ieithoedd eraill gan gynnwys y Gymraeg. Gellid asesu'r angen am hyn trwy gael adborth gan y cleifion.

Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru

Yn gyffredinol, cawsom fod gofal a thriniaeth yn cael eu cynllunio a'u cyflenwi yn ddiogel i gleifion. Roedd prosesau addas yn bodoli i amddiffyn cleifion a staff rhag croes-heintio. Yn gyffredinol, ein teimlad oedd bod trefniadau cadw cofnodion cleifion yn y practis yn briodol, ond adnabuwyd rhai gwelliannau y gellid eu gwneud.

Cyfleusterau clinigol

Edrychwyd ar y cyfleusterau clinigol ym mhob un o'r deintyddfeydd, a chafwyd eu bod yn cynnwys offer perthnasol ar gyfer diogelwch cleifion a staff. Nodwyd bod yr holl ddeintyddfeydd yn lân, yn dwt, ac wedi eu trefnu'n dda. Roedd yr holl dystysgrifau cynnal a chadw yn bodoli ar gyfer yr offer. Cawsom fod offerynnau yn cael eu storio'n briodol i osgoi halogiad.

Dadheintio offerynnau

Mae gan y practis ystafell bwrpasol ar gyfer glanhau a dadheintio offerynnau deintyddol, ac mae prosesau addas yn bodoli i rwystro croes-heintio rhwng cleifion. Roedd sincipiau golchi dwylo pwrpasol ac eitemau tafladwy ar gael i helpu gyda rheoli heintiau. Roedd yr holl offer amddiffyn personol priodol ar gyfer y staff ar gael.

Roedd y practis yn defnyddio cofnodwyr data electronig ar gyfer yr offer dadheintio, a dywedodd y staff wrthym fod copiâu wrth gefn yn cael eu creu ar y system gyfrifiadurol yn rheolaidd. Cawsom nad oedd cofnodion ar gyfer yr archwiliadau safonol a ymgwymerir gan staff nyrsio deintyddol ar ddechrau a diwedd pob dydd. Oherwydd nifer y staff nyrsio a gyflogir yn y practis, cynghorwyd y practis i ystyried system fel bod yr aelod staff unigol sy'n ymgymryd â'r archwiliadau hyn yn llofnodi i gadarnhau bod yr archwiliadau wedi eu cwblhau.

Argymhelliad

Dylai'r practis ystyried cofnodi'r archwiliadau ar ddechrau a diwedd pob dydd a gwblheir gan y staff nyrsio i sicrhau bod yr archwiliadau wedi eu cwblhau.

Cawsom nad oedd y practis wedi ymgymryd ag archwiliad o'i weithdrefnau rheoli heintiau. Yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05),² dylid ymgymryd ag archwiliadau rheoli heintiau o leiaf bob blwyddyn. O ganlyniad i'r archwiliadau hyn, dylai'r practis ddatblygu cynllun gwella i ddelio ag unrhyw broblemau.

Argymhelliad

Dylai'r practis ymgymryd ag archwiliadau rheoli heintiau bob blwyddyn a datblygu cynllun gwella i ddelio ag unrhyw broblemau a amlygir.

Gwaredu gwastraff

Roedd gwastraff yn cael ei drin, ei storio a'i waredu'n briodol yn y practis, ac roedd contract gwaredu gwastraff clinigol cyfredol yn bodoli.

Cyfarpar radiograffig

Cawsom fod trefniadau addas yn bodoli i ddefnyddio offer radiograffig (pelydr-X). Roedd dogfennau perthnasol, gan gynnwys archwiliadau diogelwch, cynnal a chadw, a phrofi ar gael. Fodd bynnag, sylwasom fod y tystysgrifau ar gyfer peth o'r offer radiograffig wedi dod i ben. Dywedodd y practis wrthym fod trefniadau wedi eu gwneud i adnewyddu'r archwiliadau cynnal a chadw hyn. Gwelsom dystiolaeth fod staff wedi eu hyfforddi i ddefnyddio offer radiograffig yn ddiogel, ond ar gyfer rhai aelodau staff roedd hyn wedi digwydd fwy na phum mlynedd yn ôl. Tra bod y staff wedi dilyn yr hyfforddiant hwn o fewn argymhellion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus, dywed y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) bod angen ymgymryd â'r hyfforddiant hwn bob pum mlynedd. Nid oedd y practis yn ymgymryd ag archwiliadau sicrhau ansawdd ar gyfer pelydrau-X i sicrhau ansawdd y ddelwedd.

Argymhelliad

Dylai'r practis sicrhau bod yr holl archwiliadau cynnal a chadw ar yr offer ymbelydredd yn cael eu gwneud ac yn gyfredol. Rhaid cwblhau hyfforddiant ymbelydredd Ïoneiddio bob pum mlynedd yn unol â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol). Dylai fod gan y

² Mae Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 yn set o ganllawiau gyda'r bwriad o wella ansawdd gwaith dadheintio (glanhau a sterileiddio) mewn gwasanaethau deintyddol gofal sylfaenol.

practis systemau sicrhau ansawdd a rheoli ansawdd addas ar gyfer offer radiograffig.

Cadw cyffuriau ac offer brys

Roedd offer adfywio a meddyginiaeth briodol ar gael i staff pe byddai argyfwng gyda chlaf (llewygu) yn y practis. Roedd staff hefyd wedi derbyn yr hyfforddiant diweddaraf ar sut i ddelio ag argyfyngau meddygol. Fodd bynnag, cawsom fod angen i'r hylenydd ddiweddarau ei hyfforddiant mewn adfywio cardio-pwlmonaidd. Cadarnhaodd y deintydd sylfaen dan hyfforddiant ei fod wedi dilyn yr hyfforddiant hwn, ond nid oedd tystysgrif ar gael ar ddiwrnod yr arolygiad. Nid oedd gan y practis swyddog cymorth cyntaf penodol, ond cytunwyd y gallai aelod o'r staff fynychu'r hyfforddiant hwn.

Argymhelliad

Dylai'r practis sicrhau bod yr holl aelodau staff wedi derbyn yr hyfforddiant diweddaraf mewn argyfyngau meddygol. Dylai'r practis hefyd benodi swyddog cymorth cyntaf.

Cawsom fod system addas yn bodoli i adnewyddu hen feddyginiaeth a bod cyffuriau yn cael eu storio a'u trefnu'n glir. Gwelwyd hefyd bod y cwpwrdd lle'r oedd yr offer a'r cyffuriau brys yn cael eu storio wedi ei nodi'n glir. Mae hyn yn osgoi unrhyw oedi wrth drin cleifion mewn argyfwng.

Cofnodion cleifion

Edrychwyd yn fanwl ar gyfanswm o naw o gofnodion cleifion, gyda samplau yn cael eu cymryd gan bob deintydd. Yn gyffredinol, roedd cofnodion y cleifion yn y practis yn briodol. Serch hynny, adnabuwyd y meysydd canlynol a'r gwelliannau y gellid eu gwneud:

- Cafwyd mai gwybodaeth gyfyngedig oedd yna ar hanes cymdeithasol (h.y. ysmegu ac yfed alcohol) yng nghofnodion y cleifion
- Nid oedd sgrinio am ganser y geg a glendid ac iechyd y geg yn cael ei gofnodi'n glir ac yn gyson
- Roedd angen cofnodion cyson a gwell o gyfiawnhad a chanfyddiadau ar gyfer radiograffau (pelydr-X) ar gyfer cofnodion rhai cleifion

- Cawsom nad oedd amllder ail-alw cleifion, gan gynnwys asesiad risg ar gyfer pob claf (h.y. risg isel, cymedrol, uchel), yn cael ei gofnodi'n gyson
- Dylai'r practis wella'r system ar gyfer cael caniatâd dilys gan bob claf, megis darparu dalennau gwybodaeth i gleifion ar gyfer triniaethau (sianel y gwreiddyn, dannedd gosod ar unwaith a thynnu dannedd) er mwyn i'r cleifion fedru eu hystyried a chymryd penderfyniad gwybodus. Dylid rhoi cynlluniau triniaeth i'r cleifion hefyd
- Dylai'r practis ddatblygu system gadarn ar gyfer gwirio hanes meddygol, megis trwy ofyn i gleifion gwblhau ffurflenni diweddarau hanes meddygol yn rheolaidd (h.y. bob blwyddyn) ynghyd â gwirio newidiadau yn llafar adeg pob apwyntiad

Nodwyd hefyd y gallai un deintydd wella manylion y nodiadau a wneir yng nghofnodion y claf. Trafodwyd hyn gyda'r deintydd dan sylw, a gytunodd edrych ar hyn.

Argymhelliad

Dylid gwella cadw cofnodion cleifion, yn enwedig o ran hanes meddygol, cael caniatâd, sgrinio ar gyfer canser y geg, manylion ynglŷn â phelydr-X, a chofnodi amllder ail-alw cleifion.

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Gwelsom fod y practis yn cael ei redeg yn ddiogel, gyda systemau'n bodoli i sicrhau diogelwch cleifion. Roeddem yn teimlo bod rheolaeth ac arweinyddiaeth gref yn y practis. Dywedodd y deintydd sylfaen dan hyfforddiant wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael goruchwyliaeth briodol.

Sefydlwyd y practis yn ei adeilad presennol ym 1994 gan y prif ddeintydd. Fe'n hysbyswyd y bydd yr holl agweddau o reoli'r practis unwaith eto yn gyfrifoldeb y prif ddeintydd, a fydd yn dychwelyd i'r rôl a ymgymerodd am nifer o flynyddoedd, ar ôl ymddeoliad rheolwr y practis a oedd ar fin digwydd. Roedd rheolwr y practis wedi ei gynorthwyo yn y dyletswyddau hyn. Roeddem yn teimlo bod rheolaeth ac arweinyddiaeth gref yn y practis.

Dywedodd y staff wrthym fod ganddynt ddealltwriaeth glir o'r hyn a ddisgwylied ganddynt a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rolau. Dywedodd y staff wrthym hefyd y byddent yn gyfforddus yn codi unrhyw bryderon sydd ganddynt.

Roedd y staff clinigol wedi eu cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol (roedd cais un nyrs ddeintyddol yn cael ei brosesu), ac roedd ganddynt yswiriant indemnïaeth. Roedd gan yr holl ddeintyddion a oedd yn darparu gwasanaethau preifat dystysgrif yn cadarnhau eu cofrestriad gydag AGIC, ac roedd y rhain wedi eu harddangos yn y deintyddfeydd.

Cawsom fod gan y practis amrywiaeth o bolisiâu, gweithdrefnau perthnasol a thystysgrifau cynnal a chadw. Roedd y practis wedi datblygu polisi 'Arferion Diogel', a oedd yn llawlyfr clir a defnyddiol i'r staff ac a oedd yn cynnwys y canllawiau diweddaraf yn WHTM 01-05. Dywedodd y practis wrthym fod y polisi hwn yn cael ei ddefnyddio fel pecyn cyflwyno i holl aelodau staff newydd. Roedd gan y practis system addas i sicrhau bod y polisiâu a'r gweithdrefnau yn gyfredol a bod y staff yn ymwybodol ohonynt.

Edrychwyd ar sampl o gofnodion hyfforddi staff a oedd yn cadarnhau bod staff wedi cwblhau'r cyfleoedd hyfforddi a oedd yn berthnasol i'w rôl. Dywedodd y staff wrthym eu bod wedi cael eu cefnogi gyda hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus. Roedd staff wedi cwblhau hyfforddiant mewn amddiffyn plant. Fodd bynnag, gan fod hyfforddiant yr hylenydd wedi ei ymgymryd yn 2009, cynghorwyd y dylid dilyn cwrs diweddarau mewn amddiffyn plant. Cynghorwyd hefyd y dylai'r holl staff perthnasol ddilyn hyfforddiant mewn amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed.

Argymhelliad

Dylai'r practis sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o arwyddion camdrin plant ac oedolion sy'n agored i niwed ac o'r trefniadau lleol y dylid eu dilyn os amheuir unrhyw gamdriniaeth.

Dywedodd aelodau'r staff wrthym fod arfarniadau blynyddol yn cael eu cynnal yn y practis. Fodd bynnag, nid oedd cofnodion o'r arfarniadau hyn ar gael.

Argymhelliad

Dylai'r practis sicrhau bod cofnodion o arfarniadau holl aelodau staff, gan gynnwys y prif ddeintydd, yn cael eu cadw.

Mae'r practis yn bractis hyfforddi sydd wedi'i hen sefydlu ar gyfer deintyddion, ac ar hyn o bryd roedd un deintydd yn dilyn blwyddyn sylfaen o hyfforddiant deintyddol. Roedd y ddau ddeintydd cyswllt hefyd wedi bod yn hyfforddeion yn y practis ac yna wedi eu cyflogi. Dywedodd yr holl ddeintyddion y bu i ni siarad â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn derbyn cefnogaeth a goruchwyliaeth dda gan y prif ddeintydd ac yn ystyried ei bod yn ddefnyddiol cael trafodaethau clinigol gyda'i gilydd. Dywedodd y prif ddeintydd wrthym hefyd bod y practis yn agored i ddysgu ar y cyd a'i fod yn cael syniadau gan ddeintyddion eraill. Mae hyn yn golygu bod y practis yn defnyddio goruchwyliaeth anffurfiol gan gymheiriaid.

Cynhaliwyd cyfarfodydd staff bob mis, yn fras. Gwelsom nodiadau o'r cyfarfodydd hyn, a oedd wedi eu cofnodi'n glir. Rhoddwyd enghraifft i ni o ddysgu o'r cyfarfodydd hyn, lle'r oedd un o'r deintyddion wedi canfod nad oedd nifer o gleifion yn mynychu apwyntiadau llenwi'r gwreiddyn. Ar ôl trafodaeth, treuliodd y deintydd fwy o amser yn siarad â'r cleifion ac yn esbonio'r broses iddynt cyn eu hapwyntiad i dawelu eu meddyliau. Cafwyd bod hyn yn llwyddiannus o ran gwella cyfraddau mynychu.

Gwelsom fod gan y staff clinigol gofnodion imiwnedd hepatitis B. Awgrymodd y cofnodion ar gyfer y prif ddeintydd ac un hylenydd bod angen dos atgyfnerthu arnynt, a oedd yn hwyr.

Argymhelliad

Dylai'r practis sicrhau bod gan yr holl staff clinigol frechiadau priodol, gan gynnwys unrhyw ddosau cyfnerthol, i amddiffyn yn erbyn firysau sy'n cael eu cludo yn y gwaed.

Roedd gan y practis drefniant i gynnig cymorth iechyd galwedigaethol ar gyfer staff trwy'r bwrdd iechyd. Roedd gan y practis drefniadau addas hefyd i gofnodi damweiniau a digwyddiadau.

Roedd gan y practis system briodol ar gyfer cofnodi cwynion ysgrifenedig a llafar. Serch hynny, awgrymwyd bod y practis yn defnyddio dalen grynhoi i gofnodi'r dyddiadau a'r camau a gymerwyd, y gellid ei darllen yn hawdd.

Cawsom fod y broses gwyno yn gyffredinol yn cydymffurfio â'r trefniadau yng ngweithdrefn cwynion cleifion y GIG o'r enw 'Gweithio i Wella',³ a rhoddodd restr o sefydliadau perthnasol i gleifion gysyllu â nhw os oedd ganddynt gŵyn. Roedd angen diweddarau'r polisi gyda chyfeiriad newydd AGIC. Mae angen hyn dan y Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat. Dylid cynnwys cyfeiriad hefyd at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer cleifion GIG. Roedd angen hefyd i'r polisi fod yn gliriach ynglŷn â'r broses a'r sefydliadau perthnasol i gysylltu â nhw, yn dibynnu ar a oedd cleifion yn derbyn triniaeth GIG neu breifat.

Argymhelliad

Dylai'r polisi cwynion fanylu'n glir y broses a'r sefydliadau i gysylltu â nhw, yn dibynnu ar a oedd cleifion yn derbyn triniaeth GIG neu breifat. Dylid diweddarau'r polisi gyda chyfeiriad newydd AGIC (Merthyr nawr, nid Caerffili) a chynnwys cyfeiriad at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer cleifion GIG.

O ystyried yr argymhellion a adnabuwyd yn ystod yr arolygiad hwn, dylid ystyried sicrhau bod trefniadau mwy effeithiol a rhagweithiol yn bodoli yn y practis i fonitro cydymffurfio â'r rheoliadau a'r safonau perthnasol.

³ 'Gweithio i Wella' yw'r trefniadau sy'n bodoli i ddelio gyda ac ymateb i bryderon ynglŷn â gofal a thriniaeth a ddarperir gan y GIG yng Nghymru.

Ansawdd yr Amgylchedd

Cawsom fod yr adeilad wedi ei gynnal a'i gadw'n briodol ac yn cynnig amgylchedd diogel i gleifion dderbyn triniaeth ynddo.

Lleolir y practis yng nghanol Caerffili, yn agos at y brif ardal siopa. Mae gan y practis bum deintyddfa ar y llawr daear a thair deintyddfa ar y llawr cyntaf. Mae gan y practis ardaloedd aros i gleifion ar bob llawr. Lleolir y dderbynfa ar y llawr daear. Mae lle i barcio ar gael mewn maes parcio talu ac arddangos yn agos at y practis.

Roedd mynediad i'r adeilad yn gyffredinol yn addas i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn a chleifion gydag anawsterau symud, ond roedd gris fechan ar y llwybr sy'n arwain at y drws ffrynt. Roedd ardaloedd y llawr daear yn hygyrch. Dywedodd staff wrthym y gallai cleifion gael eu hapwyntiadau yn y deintyddfeydd llawr daear os oedd angen.

Roedd arwydd y tu allan i'r practis gydag enwau a chymwysterau yr holl ddeintyddion, gyda'r rhif cyswllt mewn argyfwng ar gyfer gwasanaethau 'y tu allan i oriau arferol'. Gwelwyd nad oedd oriau agor y practis ar yr arwydd. Cytunodd y prif ddeintydd ychwanegu hyn. Gwelwyd hefyd bod rhestr brisiau ar gyfer cleifion GIG wedi ei harddangos yn y practis, ond nid oedd prisiau ar gyfer triniaeth breifat.

Argymhelliad

Dylai'r practis arddangos rhestr prisiau ar gyfer cleifion preifat a GIG, a gwybodaeth ar oriau agor.

Cadarnhaodd taith o gwmpas yr adeilad fod y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n foddhaol, y tu mewn a'r tu allan. Roedd gan y practis doiled staff bychan neillryw ar y llawr cyntaf a thoiled hygyrch neillryw i gleifion ar y llawr daear. Roedd rheiliau llaw addas yn nhoiled y cleifion i ganiatáu i gleifion ddefnyddio'r cyfleusterau yn ddiogel. Roedd y rhain i'w gweld yn lân ac yn cynnwys cyfleusterau golchi dwylo addas i rwystro croes-heintio. Roedd y manau aros o faint addas ar gyfer nifer y deintyddfeydd ac yn amgylchedd braf i'r cleifion eu defnyddio.

Roedd arwyddion ar gyfer yr allanfeydd tân, ac roedd diffoddwyr tân wedi eu harchwilio'n ddiweddar. Roedd mesurau diogelwch priodol yn bodoli i rwystro mynediad heb awdurdod i'r adeilad. Yn gyffredinol, cawsom fod trefniadau addas i sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu storio'n ddiogel, ac roedd copïau wrth gefn yn cael eu doddi ar ddyfais allanol bob dydd. Mae hyn yn golygu bod y practis wedi cymryd mesurau i sicrhau diogelwch a gwarchodaeth

cleifion a'u gwybodaeth. Fodd bynnag, cawsom fod y cypyrddau ffeilio y tu ôl i ardal y dderbynfa, a oedd yn cynnwys cofnodion cleifion hanesyddol, heb eu cloi.

Argymhelliad

Rhaid i'r practis sicrhau diogelwch yr holl wybodaeth am gleifion, yn benodol drwy gloi cypyrddau ffeilio gyda chofnodion cleifion hanesyddol, i rwystro mynediad heb awdurdod.

6. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella mewn perthynas â'r argymhellion yn yr adroddiad hwn. Gellir gweld manylion hyn yn Atodiad A i'r adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd ym Mhractis Deintyddol North View yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y caiff ei gytuno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu ddeintyddol barhaus.

Atodiad A

Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

Practis: Practis Deintyddol North View

Dyddiad yr Arolygiad: 28 Ionawr 2015

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|----------------|---|---|------------------|--|
| | Profiad y Claf | | | |
| 7 | Dylai'r practis ystyried rhoi mwy o wybodaeth hyrwyddo iechyd i gleifion, gan gynnwys rhoi'r gorau i ysmegu ac ymwybyddiaeth o/rhwystro canser y geg. | Fel y cytunwyd adeg yr arolygiad, byddai gwell hyrwyddo iechyd yn fanteisiol i bawb. Rwyf wedi dechrau ceisio canfod y Datblygiad Proffesiynol Parhaus perthnasol sy'n seilieig ar ymarfer, a fydd yn cynnwys y pynciau a restrwyd gan alluogi i'r tîm yn y practis chwarae rhan lawn yn y gwelliannau. | Gwyn Jones | Cyn gynted ag y gellir trefnu cwrs/cyrsiau |
| 7 | Dylai'r practis ddatblygu dull o ofyn am farn ac adborth cleifion er mwyn asesu'n rheolaidd ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. | Mae cynlluniau ar y gweill i gael holiadur practis chwarterol yn seiliedig ar faint y sampl a argymhellir gan AGIC (10). Bydd y canlyniadau yn dylanwadu ar gynllunio i'r dyfodol. Gan gymryd holiadur AGIC fel y cysylltiad cyntaf, bydd holiadur arall yn cael ei ddylunio a'i | Gwyn Jones | 3 mis |

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|--|--|--|------------------|--------------|
| | | weithredu ym mis Ebrill 2015. | | |
| Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru | | | | |
| 9 | Dylai'r practis ystyried cofnodi'r archwiliadau ar ddechrau a diwedd pob dydd a gwblheir gan y staff nyrsio i sicrhau bod yr archwiliadau wedi eu cwblhau. | Derbyniwyd awgrym AGIC gan y staff deintyddol. Mae'n golygu nad oes unrhyw beth newydd neu well wedi cael ei weithredu, ond bydd y safonau uchel sydd gan y practis eisoes yn cael eu cofnodi. | Gwyn Jones | Wedi dechrau |
| 10 | Dylai'r practis ymgymryd ag archwiliadau rheoli heintiau bob blwyddyn a datblygu cynllun gwella i ddelio ag unrhyw broblemau a amlygir. | Defnyddir y pecyn Archwilio Ôl-raddedig, ac fe ymgymerir ag archwiliad yn y dyfodol agos, ac ailadrodd hynny bob blwyddyn | Andrew Sullivan | 6 mis |
| 10 | Dylai'r practis sicrhau bod yr holl archwiliadau cynnal a chadw ar yr offer ymbelydredd yn cael eu gwneud ac yn gyfredol. Rhaid cwblhau hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio bob pum mlynedd yn unol â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol). Dylai fod gan y practis systemau sicrhau ansawdd a rheoli ansawdd addas ar gyfer offer radiograffig. | Bydd yr holl archwiliadau ymbelydredd yn gyfredol yn y man, fel yr esboniwyd adeg yr arolygiad. Fel y gwyddoch, mae'r archwiliadau rheolaidd eisoes wedi eu trefnu ac fe gânt eu hymgyrdd yn fuan. Ar ôl cadarnhau bod angen hyfforddiant IRMER bob 5 mlynedd (ac nid unwaith mewn cylch 5 mlynedd fel y cynghorwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol), cymerwyd camau ar unwaith, ac mae Gwyn Jones, yr unig aelod staff | Gwyn Jones | 4 wythnos |

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|----------------|---|---|---|-------------------|
| | | <p>a effeithiwyd, wedi cwblhau hyfforddiant IRMER yn llwyddiannus. Mae tystysgrifau ar gael i'w harchwilio.</p> <p>Mae systemau sicrhau ansawdd a rheoli ansawdd newydd a gwell yn cael eu gweithredu.</p> | | |
| 11 | <p>Dylai'r practis sicrhau bod yr holl aelodau staff wedi derbyn yr hyfforddiant diweddaraf mewn argyfyngau meddygol. Dylai'r practis hefyd benodi swyddog cymorth cyntaf.</p> | <p>Mae'r holl staff yn gyfredol gyda hyfforddiant ar gyfer argyfyngau meddygol fel yr argymhellir gan ganllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.</p> <p>Adeg yr arolygiad, roedd tystysgrif ar goll ond yr hyfforddiant wedi ei gwblhau. Mae'r ddogfen bellach wedi ei ffeilio.</p> <p>Mae dau aelod staff wedi cytuno derbyn rôl swyddog cymorth cyntaf ac yn ymgymryd â'r hyfforddiant cyn gynted ag y gellir canfod cwrs addas. Yn y cyfamser, rwy'n hyderus y gellir ymateb yn rhesymol, rhwng pedwar gweithiwr deintyddol proffesiynol, pob un ohonynt yn gyfredol o ran hyfforddiant ar gyfer argyfyngau meddygol.</p> | <p>Gwyn Jones Kaylea Palkowski Rebecca Spears</p> | <p>3 mis</p> |
| 12 | <p>Dylid gwella cadw cofnodion cleifion, yn enwedig o ran hanes meddygol, cael caniatâd, sgrinio ar gyfer canser y geg, manylion ynglŷn â phelydr-X, a chofnodi amllder ail-alw cleifion.</p> | <p>Gellir gwella bob amser, hyd yn oed pan oeddem yn ystyried bod ein hymdrechion yn ddigonol. Teimlwyd bod defnyddio 'blychau ticio' yn gymorth da i'r cof ac yn arbed amser. Fodd bynnag, oherwydd i chi ddweud nad ydych yn rhy</p> | <p>Gwyn Jones</p> | <p>Ar unwaith</p> |

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|------------------------------------|---|---|-------------------------------|------------------------------------|
| | | hapus gyda'r rhain, rydym am gyfyngu eu defnydd a mabwysiadu system cadw nodiadau mwy cynhwysfawr yn y dull rydych chi'n ei ystyried yn ganmoladwy. | | |
| Rheolaeth ac Arweinyddiaeth | | | | |
| 14 | Dylai'r practis sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o arwyddion camdrin plant ac oedolion sy'n agored i niwed ac o'r trefniadau lleol y dylid eu dilyn os amheuir unrhyw gamdriniaeth. | Bydd cwrs yn y practis i wella gwybodaeth yr holl aelodau staff yn cael ei ymgymryd cyn gynted ag y gellir ei drefnu. | Gwyn Jones | Cyn gynted ag y gellir trefnu cwrs |
| 14 | Dylai'r practis sicrhau bod cofnodion o arfarniadau holl aelodau staff, gan gynnwys y prif ddeintydd, yn cael eu cadw. | Mae arfarniadau wedi eu cynllunio ar gyfer dechrau mis Ebrill. Caiff y cofnodion eu cadw. | Gwyn Jones Andrew Sullivan | 3 mis |
| 14 | Dylai'r practis sicrhau bod gan yr holl staff clinigol frechiadau priodol, gan gynnwys unrhyw ddosau cyfnerthol, i amddiffyn yn erbyn firysau sy'n cael eu cludo yn y gwaed. | Mae'r un cofnod sydd ar goll wedi ei ganfod. Byddwn yn craffu ar yr holl gofnodion a chymryd unrhyw gamau priodol. | Gwyn Jones | 1 mis |

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|------------------------------|--|--|------------------|------------|
| 15 | Dylai'r polisi cwynion fanylu'n glir y broses a'r sefydliadau i gysylltu â nhw, yn dibynnu ar a oedd cleifion yn derbyn triniaeth GIG neu breifat. Dylid diweddarau'r polisi gyda chyfeiriad newydd AGIC (Merthyr nawr, nid Caerffili) a chynnwys cyfeiriad at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer cleifion GIG. | Mae'r practis bob amser wedi ceisio osgoi'r angen i gleifion gwyno. Serch hynny, mae cwyn o bryd i'w gilydd yn anochel. Mae hwyluso cwyn yn erbyn ein gwaith preifat, yn yr un modd ag yr ydym yn delio â'n gwaith GIG, trwy gynnwys y manylion rydych eu heisiau, yn hawdd ei wneud. | Gwyn Jones | 1 mis |
| Ansawdd yr Amgylchedd | | | | |
| 16 | Dylai'r practis arddangos rhestrï prisiau ar gyfer cleifion preifat a GIG, a gwybodaeth ar oriau agor. | Caiff rhestr o brisiau preifat ei harddangos. Caiff yr oriau agor eu hychwanegu at yr arwydd sydd eisoes yn cael ei arddangos ar du blaen yr adeilad. | Gwyn Jones | 1 mis |
| 17 | Rhaid i'r practis sicrhau diogelwch yr holl wybodaeth am gleifion, yn benodol trwy gloi cypyrddau ffeilio gyda chofnodion cleifion hanesyddol, i rwystro mynediad heb awdurdod. | Ystyriwyd bob amser bod diogelwch y practis (ffenestri llawr daear wedi eu cloi a'u bario, caeadau metel ar y drysau ffrynt a chefn, a larwm tresmaswyr sy'n cael ei chynnal a'i chadw yn broffesiynol) yn ddiogelwch digonol ar gyfer gwybodaeth am gleifion. Yn unol â'ch cais, byddwn yn cloi'r cypyrddau ffeilio | Gwyn Jones | Ar unwaith |

Cynrychiolydd y Practis:

Enw (printiwch):

Teitl:

Llofnod:

Dyddiad: